# Cefnogi unigolion i fwyta ac yfed

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi unigolion sydd angen cymorth i fwyta ac yfed. Mae hyn yn cynnwys paratoi ar gyfer bwyta ac yfed, cefnogi unigolion pan fyddant yn bwyta ac yn yfed ac ar ôl hynny.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth a chynlluniau gofal neu gymorth am ddewisiadau a gofynion maeth unigolion
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi’r cymorth sydd ei angen i fwyta ac yfed
3. sicrhau bod dulliau atal a rheoli heintiau, a chyfarpar diogelu personol, yn cael eu defnyddio
4. cefnogi unigolion i baratoi amgylcheddau ar gyfer profiadau dymunol, diogel a chymdeithasol
5. dewis, paratoi ac annog unigolion i ddefnyddio unrhyw gyfarpar arbenigol a gorchuddion diogelwch
6. cefnogi unigolion i ddewis bwyd a diod sy'n cwrdd â’u dewisiadau a’u hanghenion
7. cefnogi unigolion i fwyta ac yfed gyda pharch, urddas a chysur
8. cefnogi unigolion i ddewis hynny o fwyd a diod y gallant ymdopi ag ef a’i fwyta ac yfed ar eu cyflymder eu hunain
9. cefnogi unigolion â hylendid personol tra byddant yn bwyta ac yfed, ac ar ôl iddynt orffen
10. cadarnhau bod yr unigolyn wedi gorffen bwyta ac yfed ac a lwyddwyd i gwrdd â’i ofynion maeth a'i ddewisiadau
11. clirio’r offer a'r llestri sydd wedi cael eu defnyddio a chael gwared ar wastraff
12. gadael yr amgylchedd yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio y tro nesaf
13. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i fwyta ac yfed
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi unigolion i fwyta ac yfed

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sail a phwysigrwydd deiet iach
2. pwysigrwydd darparu amrywiaeth o opsiynau i gefnogi dewis o fwyd a diod
3. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i fwyta ac yfed
4. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar y ffordd mae bwyd yn cael ei ddewis, ei baratoi a'i fwyta
5. sut y gall gwead, blas a golwg bwyd a diod effeithio ar unigolion
6. effaith cyflyrau meddygol ar ofynion deietegol unigolion
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol wrth gefnogi unigolion i fwyta ac yfed
8. sut gellir addasu gwahanol offer a'u defnyddio i gwrdd ag anghenion unigolion
9. y mathau o gyfarpar arbenigol a gorchuddion diogelwch a sut i'w defnyddio
10. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi unigolion i fwyta ac yfed
11. sut mae amgylcheddau yn gallu cefnogi profiadau dymunol, diogel a chymdeithasol
12. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion â bwyd a diod
13. sut mae cadarnhau bod unigolion wedi bwyta ac yfed digon i gwrdd â'u gofynion maeth
14. rôl emosiynau wrth fwyta ac yfed a sut mae cefnogi unigolion i'w rheoleiddio
15. y mathau o atchwanegiadau maethol a pham eu bod yn cael eu defnyddio
16. ffactorau risg ac arwyddion diffyg maeth
17. arwyddion a symptomau dadhydradu a sut i hybu hydradu
18. rhagofalon diogelwch bwyd a chanlyniadau posibl ymarfer gwael
19. sut mae sicrhau hylendid dwylo effeithiol a'i rôl o ran atal a rheoli heintiau wrth drin bwyd a diod
20. sut mae mynd i'r afael ag unrhyw broblemau â bwyd a diod, a phwysigrwydd trosglwyddo gwybodaeth i eraill
21. sut mae adnabod adwaith iechyd annisgwyl sydyn ac argyfwng gyda bwyd a diod, a sut mae ymdopi â nhw
22. sut mae cofnodi newidiadau i ddewisiadau ac anghenion gofal neu gymorth unigolyn, a pham fod hyn yn bwysig

23. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion i fwyta ac yfed
24. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i fwyta ac yfed
25. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i fwyta ac yfed
26. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi unigolion i fwyta ac yfed, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion i fwyta ac yfed

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion i fwyta ac yfed

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD218 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Bwyta, Yfed, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |